

# 17. MAMMAL SAFARI



Contact:  
notice and actively  
engage in nature

Linked to  
emotion and  
compassion.

## Objective:

To be able to identify common mammals and some key characteristics (squirrels, hedgehogs, moles, foxes, badgers, rats).

## Resources

### Essential:

Your best wildlife detective skills

### Optional:

Identification charts or apps

Hiding behind a tree or bush really does work! It blocks your silhouette and defuses your scent, which is often the first thing to alert a mammal to your presence.

## Hints & Tips

Setting up an animal tracker the night before is a great way of seeing what mammals use your patch.

It is important to search carefully and quietly, so that you don't scare the mammals away. The slower you go, the closer you look and the harder you listen, the more you will find.

## Plenary/Wrap Up

Call your group together and ask them what mammals, tracks or signs they found and where.

What didn't you find? Why?

Follow-on activities: Squirrel cache (no 20), Animal Simon says (no 23), Tracks and signs (no 21 & 33) and Food chain game (no 34).

## Instructions:

1. Introduce six common mammals. What do you notice about them? How big do you think they are? What do you think they eat?

**What are they?** A broad definition is that mammals are vertebrates (animals with a backbone) who grows hair and feed their young with their milk. In Cardiff you are likely to see squirrels, foxes and rats, and see signs of moles, badgers and hedgehogs. If you're really lucky, you may see a mouse, shrew or vole, or maybe even an otter!

**Where will you find them?** Most of these animals can be seen first thing in the morning and towards dusk. They are often very shy and wary of their surroundings so they can be hard to spot. You will need to be patient and use your detective skills to see them. Rabbits like long grass, squirrels need trees, shrews and voles need vegetation to hide in. Moles are rarely seen above ground, but you can see the mole hills they have created.

2. Explain that mammals can be hard to find but they leave tracks and signs behind, so we know where they have been. Ask the children what kind of tracks and signs animals might leave. Prompt them by asking what signs a mole might leave.

3. Introduce how to safely use any equipment and ask the children how they can stay safe during the activity.

4. It's time to go on a tiptoe walk outside and become a mammal detective. Use the tracks and signs sheet (No 21 or 33) to help you track down mammals.

## RSPB Wild Challenge

Make a Hog House  
Make an Animal Tracker  
Make a Hibernaculum  
Make a Mini Pond



# 17. MAMALIAID RHYFEDDOL



Cyswllt:  
sylwi ac ymgysylltu  
â byd natur.

Cysylltiedig  
ag **emosiwn**  
a thosturi.

## Amcan:

Gallu adnabod mamaliaid cyffredin sydd i'w gweld a rhai o'r prif nodweddion (gwiwerod, draenogod, gwahaddod, llwynogod, moch daear, llygod mawr).

## Adnoddau

<b>Hanfodol:</b> Eich sgiliau ditectif bywyd gwyllt gorau	<b>Dewisol:</b> Siartiau neu apiau adnabod
--	--



Mae cuddio y tu ôl i goeden neu lwyn yn gweithio! Mae'r goeden yn cuddio eich silwét ac yn lleihau eich arogl, ac yn aml iawn dyna'r peth cyntaf sy'n dweud wrth famal eich bod o gwmpas.

## Awgrymiadau

Mae gosod traciwr anifeiliaid y noson gynt yn ffordd dda o weld pa famaliaid sy'n defnyddio eich darn o dir.

Mae'n bwysig chwilio'n ofalus ac yn ddistaw, rhag dychryn y mamaliaid i ffwrdd. Os ydych yn cerdded yn araf, rydych yn edrych yn fwy gofalus ac yn gwrando'n fwy astud, a byddwch yn darganfod mwy.

## Grŵp llawn / crynodeb

Galwch eich grŵp at ei gilydd a gofynnwch pa famaliaid, olion neu arwyddion y gwnaethon nhw eu gweld ac ym mhle.

Beth wnaethoch chi ddim ei weld? Pam?

Gweithgareddau dilynol: Celc y wiwer (rhif 20), Mae Seimon yn dweud Anifeiliaid (rhif 23), Traciau ac arwyddion (rhif 21 a 333) a Gêm y gadwyn fwyd (Rhif 34).

## Cyfarwyddiadau:

1. Cyflwynwch chwe mamal cyffredin. Beth ydych chi'n sylwi amdany'n nhw? Tybed pa mor fawr ydyn nhw? Tybed beth mae nhw'n ei fwyta?

Beth ydyn nhw? Diffiniad cyffredinol yw bod mamaliaid yn fertebratau (anifeiliaid ag asgwrn cefn) sy'n tyfu blew ac sy'n bwydo eu rhai bach â'u llaeth. Yng Nghaerdydd rydych yn debygol o weld gwiwerod, llwynogod a llygod mawr, a gweld arwyddion gwahaddod, moch daear a draenogod. Os ydych yn lwcus iawn, efallai y gwelwch chi lygoden, llyg neu lygoden bengron goch, neu hyd yn oed ddyfrgi!  
**Ble fyddwch chi'n eu gweld?** Mae'r rhan fwyaf o'r anifeiliaid hyn i'w gweld ben bore a gyda'r nos. Mae nhw'n gallu bod yn swil iawn ac yn wylidwrus o'r hyn sydd o'u hamgylch, felly gallant fod yn anodd i'w gweld. Bydd angen i chi fod yn amyneddgar a defnyddio eich sgiliau ditectif i'w gweld. Mae cwningod yn hoffi glaswellt tal, mae'r wiwerod angen coed, ac mae ar lygon a llygod pengrwn y dŵr angen llystyfiant i guddio ynddo. Yn anaml iawn y mae gwahaddod i'w gweld ar wyneb y ddaear, ond gallwch weld y twmpathau o bridd y mae nhw'n eu creu.

2. Eglurwch y gall mamaliaid fod yn anodd i'w gweld, ond eu bod yn gadael olion ac arwyddion ar eu holau, felly rydym yn gwybod ble mae nhw wedi bod.

Gofynnwch i'r plant pa fath o olion ac arwyddion y gallai anifeiliaid adael ar eu holau. Gallwch eu hannog drwy ofyn pa arwyddion fyddai moch daear yn eu gadael ar ei hôl.

3. Eglurwch sut mae defnyddio'r offer yn ddiogel a gofynnwch i'r plant sut y gallan nhw gadw'n ddiogel yn ystod y weithgaredd.

4. Mae'n amser mynd allan am dro ar flaenau eich traed a bod yn ditectif mamaliaid. Defnyddiwch y daflen olion ac arwyddion (rhif 21 neu 33) i'ch helpu i ddilyn trywydd mamaliaid.

## Sialens Wyllt RSPB

Creu Ty<sup>^</sup> Draenog  
Creu Traciwr Anifeiliaid  
Creu Gaef-Gysgfan  
Creu Pwll d<sup>^</sup>wr Bach